



# Datgarboneiddio Cymru

## Cyflwyniad

Mae angen gofyn cwestiynau sylfaenol a wynebu dewisiadau ynglŷn â thynged cymdeithas ac economi Cymru. Er enghraift, ddylai Cymru hyrwyddo diwydiannau gwyrdd newydd, gan fanteisio ar dechnolegau newydd a phrosesau diwydiannol gwell y gall eu hallforio ac sy'n gallu sbarduno twf economaidd? Ar y llaw arall, ddylai Cymru ddilyn strategaeth 'dirywio' graddol i leddfu ei heffaith ar adnoddau naturiol a chryfhau cynaladwyedd a gwydnwch economiau lleol?

Mae'r dewisiadau hynny'n ehangach na phenderfyniad pwylgor am y ffordd orau o gyflawni nod - maen nhw'n ddewisiadau gwleidyddol ac economaidd am ffurf economi'r wlad a threfn ei chymdeithas. Mae'n bwysig mynegi'r dewisiadau hynny i alluogi pobl i benderfynu pa rai sydd orau gyda nhw a galluogi llunwyr polisiau i ystyried popeth o safbwyt strategol. Bydd angen cymryd camau i wireddu'r delfryd hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod angen llai o carbon ar economi'r wlad trwy gyhoeddi amryw bolisiau a strategaethau ar gyfer cynhyrchu llai o carbon a lleddfu effeithiau'r newid hinsoddol yma ([Llywodraeth Cymru 2019a](#); [Llywodraeth Cymru 2019b](#)). Mae wedi cyhoeddi yn ddiweddar ei hail gyllideb carbon sy'n pennu'r trywydd tuag at wlad heb carbon ynghyd â chynigion a llwybrau llai o allyriadau ([Llywodraeth Cymru 2021a](#)). Mae'n amlwg, fodd bynnag, y bydd angen diwygiadau uchelgeisiol a phellgyrhaeddol i gyrraedd y prif darged, sef [dim allyriadau erbyn 2050](#), yn arbennig os penderfyna mai erbyn 2035 fyddai orau ([Llywodraeth Cymru, 2021b](#)).

Yn ei hymchwil i *Just Transitions* ([Price et al., 2021](#)), nododd Canolfan Polisiau Cyhoeddus Cymru anawsterau a chyfleoedd a allai wynebu adrannau gwladol ynghylch datgarboneiddio a fydd yn deg i gymdeithas ac economi'r wlad. Mae deddfau'r wlad, yn enwedig [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015](#), yn hybu trefn drawsbynciol a ffyrrd cydweithredol a allai helpu i hwyluso'r newidiadau angenrheidiol ar gyfer gwlad heb garbon yn y pen draw.

## Bydd angen i lunwyr polisiau ar bob lefel gadw'r 'darlun mawr' mewn cof wrth gnoi cil ar werthoedd a blaenorriaethau y bydd eu dewisiadau'n eu hadlewyrchu

Mae Pwyllgor y Newid Hinsoddol o'r farn bod angen ystyried popeth o safbwyt y tymor hwy, hefyd. Mae'n dweud bod angen strategaeth sectoraidd hirdymor eglur i ollwng llai o carbon, ynghyd â thargedau i'r perwyl hwnnw ([Pwyllgor y Newid Hinsoddol, 2020](#)). Er bod pawb yn deall bod angen llai o allyriadau, fodd bynnag, does dim ffordd eglur o gyrraedd y nod eto gan fod amryw syniadau am y strategaethau a pholisiau gorau ynghylch cael gwared ar carbon.

Mae hynny'n bwysig gan nad llwybrau gwahanol at yr un nod mo'r rheiny i gyd - mewn rhai achosion, mae pen y daith yn gwbl wahanol, hefyd. Mae'r strategaethau a'r polisiau a fydd ar waith yn adlewyrchu angen llai o allyriadau a'r dystiolaeth wyddonol ynghylch cwtogi arnyn

nhw. Byddan nhw'n adlewyrchu gwerthoedd diwylliannol, cymdeithasol a gwleidyddol llywodraeth a chymunedau'r wlad hefyd, fod bynnag. Mewn rhai achosion, gallai gwerthoedd gwahanol arwain at ddeilliant gwahanol iawn: er enghraift, o ddewis hybu bywyd gwylt mewn sawl rhan o gefn gwlad Cymru, mae'n debygol iawn y bydd angen ffermio'n ddwys iawn mewn rhannau eraill, a byddai hynny'n groes i'r delfryd i ddibenion rheoli tir a chwtogi ar garbon, sef llai o amaethu dwys. Yn yr un modd, bydd ymdrech i gyrraedd gwlad heb garbon ynghyd â chynnal a chadw safonau byw'r trigolion yn arwain at rai polisiau ar draul eraill.

Felly, bydd angen i lunwyr polisiau ar bob lefel gadw'r 'darlun mawr' mewn cof wrth gnoi cil ar werthoedd a blaenoriaethau y bydd eu dewisiadau'n eu hadlewyrchu, gan ofalu eu bod yn trafod yr amryw werthoedd a blaenoriaethau hynny'n agored ac ennill cytundeb a chyfreithlondeb democrataidd.

Mae Canolfan y Polisiau Cyhoeddus yn cyfrannu at y drafodaeth trwy benodi amryw arbenigwyr i helpu llunwyr polisiau i benderfynu ar eu strategaethau hirdymor. Rydyn ni wedi gofyn i'n harbenigwyr lunio papurau am rai cwestiynau pwysig ynghylch cael gwared ar garbon, gan esbonio pam y dylai llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus Cymru arddel eu safbwyt. Wrth wneud hynny, ein nod yw pennu ffiniau'r drafodaeth yn eglur a meithrin gallu a pharodrwydd i fynd i'r afael â'r cwestiynau ehangach hirdymor ynghylch dim carbon, yn hytrach nag argymhell ein safbwyt ein hunain.

Mae'r pynciau cyntaf isod, ac rydyn ni'n gobeithio y bydd darllenwyr yn ymgysylltu'n eang â'r darnau sydd i'w cyhoeddi dros y misoedd nesaf.

## Datblygu economaidd: twf gwyrdd neu ddirywiad?

Mae sawl rhagolwg a model, a rhai'r ganolfan hon yn eu plith, yn tybio y bydd rhyw fersiwn o'r trefniadau economaidd a chymdeithasol presennol yn parhau ac yn darogan pethau yn ôl y dyb honno. Mae eraill yn dadlau, fod bynnag,

y bydd angen newid trefniadau economaidd a chymdeithasol yn fawr i gyrraedd gwlad heb garbon.

Mae rhai o'r farn nad oes modd parhau i ddefnyddio adnoddau fel y mynnon ni ac na all cyfundrefnau cyfalafol neu farchnata sy'n hybu twf ymateb yn ddigonol i ehangder yr argyfwng hinsoddol. Mae model 'toesen', er enghraift, yn pennu lefel uchaf defnyddio adnoddau ar gyfer y blaned i gyd: trothwyon na all neb fynd y tu hwnt iddyn nhw heb newid ecosustemau, bioamrywiaeth a'r hinsawdd yn sylweddol. Mae lefel is, hefyd - y 'lloriau cymdeithasol' sy'n pennu'r safonau byw lleiaf i ddinasyddion ([Raworth, 2012](#)). Mae model o'r fath wedi'i lunio dros Gymru ([Swaffield ac Egan, 2020](#)).

Gan ymateb i fygythiad y newid hinsoddol a'r safbwyt bod pawb yn defnyddio gormod o adnoddau naturiol, mae rhai'n anelu yn hytrach at economi 'sefydlog ei chyflwr' a fyddai'n ailiosod economi'r byd fel y gallen ni ddefnyddio adnoddau ac ynni yn ôl ffiniau ecosustemau lleol a byd-eang ([Alexander and Rutherford, 2014](#)). Gan y byddai hynny'n debygol o beri crebachu economaidd hirfaith a bwriadol mewn gwledydd incwm uchel, gelwir y farn hon yn aml yn 'ddirywiad'. Er na fyddai twf economaidd mwyach, mae cynigwyr yn dadlau y dylai economi sy'n dirywio anelu at ailddosbarthu cyfoeth presennol a hybu lefel uwch o les sylfaenol neu 'ffynnu o fewn terfynau ecolegol' ([Jackson, 2009: 156](#)).

Mae eraill, fod bynnag, yn dadlau bod angen twf economaidd o hyd. Mae twf wedi dod â ffyniant ac mae'n hwyluso datblygiad technolegol trwy gynnydd mewn adnoddau a chyfalaf. Mae eiriolwyr dros 'dwf gwyrdd' neu 'ecofoderniaeth' yn dadlau bod twf economaidd wedi bod yn hanfodol i ddatblygiadau iechyd, ffyniant a lles ers y Chwyldro Diwydiannol ([Asafu-Adjaye et al., 2015](#)). Ar ben hynny, fod bynnag, maen nhw'n dadlau bod twf yn galluogi'r byd i 'ddatgysylltu' ffyniant cynyddol oddi wrth newid yn yr ecosustemau neu'r hinsawdd yn ehangach. Felly, bydd datblygu economaidd a thechnolegol yn galluogi pawb i ddefnyddio mwy a mwy o ynni a ffynnu'n

barhaus wrth leddfu effaith trigolion y byd ar ei amgylchedd. O ganlyniad, byddai pobl yn ffynnu, yn enwedig mewn rhannau o'r byd lle nad oes llawer o ddatblygu economaidd eto.

Trwy ddatblygu 'economi gylchol' sy'n aildefnyddio neu'n ailgylchu cynifer o ddeunyddiau ag y bo modd, gallen ni helpu i leddfu effaith amgylcheddol gweithgarwch economaidd heb hybu na rhwystro twf. Mae'n aneglur, fod bynnag, a allen ni gynhyrchu rhagor o nwyddau ac ynni â'r adnoddau presennol ac a fydd modd parhau i ddefnyddio adnoddau yn ôl y lefel bresennol yn y pen draw.

Bydd ein darnau'n ystyried y safbwytiau hynny a manteision pob un i bobl Cymru yng nghydestun deddfau megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd yn bwysig pwysgo a mesur effaith pob dull ar y newid hinsoddol, lles a ffyniant y bobl a'r gallu i barhau i gymryd camau yn y dyfodol.

## Anghenion economi Cymru yn y dyfodol o ran ynni

Yn ôl pob tebyg, y trawsffurfio ym maes ynni yw'r un mwyaf amlwg a datblygedig. Mae ffermydd gwynt ledled cymoedd y deheubarth bellach ac mae ymwybyddiaeth eang bod angen cefnu ar lo, yn arbennig yn sgîl y rhyfel yn Wcráin.

Bydd y trawsffurfio'n gymhleth, wrth gwrs. I drydaneiddio prosesau diwydiannol a chludiant personol, bydd rhaid cynhyrchu llawer mwy o ynni a gwella isadeiledd trosglwyddo a dosbarthu trydan fel y gall yr ynni ychwanegol gyrraedd cartrefi pobl. Gan nad oes modd cynhyrchu ynni trwy wynt neu'r haul bob amser, bydd angen dyfeisio ffyrdd o storio ynni a/neu ei ddefnyddio'n hyblyg. Gallai fod angen rhyw gyfleuster wrth gefn i gynhyrchu ynni ychwanegol yn ôl yr angen, hefyd.

Mae sefyllfa'r wlad hon yn fwy cymhleth o ganlyniad i ddatganoli a'r arian sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Er bod Llywodraeth Cymru yn rheoli rhai rhannau o ynni ac mae wedi pennu polisiau yn y maes hwnnw megis ([Llywodraeth Cymru, 2021c](#)), San Steffan sy'n

gyfrifol am gynllunio ar gyfer cyfleusterau cynhyrchu dros 350MW. At hynny, dim ond hyn a hyn o arian sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ar fenthyg ar gyfer isadeiledd neu fuddsoddi, gan gyfyngu ar ei gallu i ariannu prosiectau newydd yn uniongyrchol.

Mae polisi Llywodraeth Cymru yn tueddu i hybu ynni adnewyddadwy gan gynnwys anelu at gynhyrchu 70% o'r ynni mae'i angen ar y wlad trwy ddulliau gwyrdd a sefydlu prosiectau lleol sy'n gallu cynhyrchu 1GW erbyn 2030 ([Llywodraeth Cymru, 2021c](#)). Mae o blaids adeiladu atomfeydd yng Nghymru hefyd, gan gynnwys adweithyddion modiwlaid bychain yn Nhrawsfynydd ([Thomas, 2021](#)). Mae cyrff megis Sefydliad Materion Cymru wedi cynnig y dylai'r wlad fanteisio ar ei gallu i gynhyrchu ynni trwy lanw a gwynt y môr ([IWA, 2019](#)); mae eraill wedi cynnig defnyddio celloedd tanwydd hydrogen i ateb galw diwydiannau a storio ynni ([Sen, 2020](#)).

Felly, mae'n amlwg bod nifer o ddewisiadau i Gymru o ran ynni, ac y byddai pob un yn defnyddio elfennau yn wahanol i ateb galw'r wlad am ynni a chynnig swyddi crefftŵyr i gryfhau gwytnwch yr economi.

Bydd papur rhagarweiniol yn trafod cyd-destun Cymru a'r llwybrau sydd ar gael iddi. Wedyn, bydd papurau byrrach yn trafod pob llwybr yn fanylach, gan ganolbwytio ar ddichonoldeb technegol, gofynion sistem cynhyrchu, trawsyrru a dosbarthu ynni a'r amryw anawsterau a chyfleoedd ynglŷn â dilyn trywydd penodol. Gallai'r papurau hynny ategu trafodaeth ehangach am lwybrau economaidd-gymdeithasol i ofalu bod sistem cynhyrchu ynni'r wlad yn gallu diwallu ei hanghenion.

## Pa mor wylt ddylai Cymru fod? Defnyddio tir, amaeth a'r newid hinsoddol

Mae llawer o ucheldiroedd yng Nghymru ac mae'n defnyddio mwy o dir ar gyfer amaeth na gwledydd eraill y deyrnas. Mae llawer o'r wlad wedi'i nodi'n ardaloedd llai ffrwythlon o safbwyt cynhyrchu bwyd ([Armstrong, 2016](#)). O ganlyniad,

mae mwy a mwy o ddiddordeb ynghylch rhoi'r gorau i amaeth yn yr ardaloedd hynny (gan adael iddyn nhw ddychwelyd i'w cyflyrau naturiol) a manteisio ar gyfleoedd i newid trefn ariannu amaeth yn sgil canu'n iach i Undeb Ewrop.

Mae cymunedau amaethyddol yn bwysig i ddiwylliant Cymru gan fod y Gymraeg yn gryfach yng nghefn gwlad nag yn y trefi, ([Undeb Amaethwyr Cymru, 2019](#)). Mae amaeth yn cynnal economi cefn gwlad hefyd, gan gynnwys trwy ddiwydiannau ategol neu gysylltiedig megis gwasanaethau milfeddygol, porthiant a marchnadoedd. Maen nhw o dan bwysau trymion megis cyfuno ffermydd ac incwm isel, fodd bynnag. Mae llawer o ffermwyr wedi cefnu ar amaeth o ganlyniad i drefn y cymorthdaliadau ([Williams, 2019](#)).

Mae ffermwyr a llywodraethau'n cydnabod bod amaeth yn bwysig i adfer cynefinoedd a chadw bioamrywiaeth, ond dydyn nhw ddim yn cytuno ar y ffordd orau o gyflawni hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu newid trefn y cymorthdaliadau trwy dalu ffermwyr am reoli tir yn gynaladwy ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)). Er enghraift, gallai fynnu i'r ffermwyr blannu coed ar 10% o'r tir a magu cnydau dros y gaeaf ar gaeau sy'n wag fel arfer ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)). Bydd angen gofalu na fydd y drefn newydd yn arwain at gyfuno ffermydd, colli rhagor o ffermwyr ac incwm anghyson ([Jones a Jones, 2021](#)).

Ar y cyfan, mae defnyddio tir yn bwnc llosg yng Nghymru bellach gan fod trafodaethau am ailwyltio wedi codi stêm. Mae'r rhai sydd o'i blaids yn dadlau y byddai'n hybu bioamrywiaeth, yn adfer tir diffaith yng nghefn gwlad a helpu i leddfu'r newid hinsoddol ([Bakker a Svenning, 2018; Cromsigt et al., 2018](#)). Mae'r rhai sydd yn ei erbyn yn dadlau bod ailwyltio'n bygwth brôydd gwledig trwy fynnu i gymunedau llynw wrth ofynion heb ystyried eu cynhysgaeth, eu diwylliant na'u ffordd o fyw ([Betteley, 2018](#)). Gall iaith ailwyltio awgrymu mai dim ond ar ôl i bobl leol ac amaeth adael y bydd tir yn werthfawr.

Mae ffactorau eraill i'w hystyried mewn perthynas â'r farn mai ailwyltio yw'r ffordd orau

o hyrwyddo bioamrywiaeth ac adfer cynefinoedd. O ganlyniad i ailwyltio tir, byddai angen cynhyrchu llawer mwy ar y gweddill sydd wedi'i neilltuo ar gyfer amaeth, yn ôl pob tebyg ([Fairlie, 2013](#)). Mae eraill yn dadlau y gallai rhwydwaith ffermydd ecolegol fod yn well i fioamrywiaeth nag ailwyltio helaeth ([Smaje, 2015](#)). Mae hynny'n cyfateb i'r drafodaeth ehangach am amaethu'n ddwys o'i gymharu ag amaeth ecolegol. Mae ffermio dwys cyfoes yn defnyddio llai o lafur ac yn honni ei fod yn fwy cynhyrchiol, er ei fod yn fwy dibynnol ar elfennau megis gwrtraith annaturiol a gall niweidio iechyd y pridd dros y tymor canolig. Mae amaeth ecolegol yn tuedd i bwysleisio ffermio cymysg llai dwys sy'n defnyddio mwy o lafur ond yn ceisio hyrwyddo iechyd y pridd a bioamrywiaeth.

Mae penderfyniadau ynghylch defnyddio tir wedi'u cysylltu'n eglur â'r cwestiynau uchod am ffurf a nodau cymdeithas Cymru yn y dyfodol. I gadw'r ddysgl yn wastad rhwng anghenion amaeth a chymunedau gwledig a'r bwriad i adfer ecosustemau a chyflawni nodau cymdeithasol ehangach, bydd angen dewis llwybrau yn ofalus yn ogystal ag ystyried sut mae cyflawni nodau o'r fath, gan gynnwys hawliau pobl a brôydd y gall newidiadau effeithio arnyn nhw. Bydd ein papurau ar y pwnc hwn yn archwilio'r cwestiynau hynny.

## Llyfryddiaeth

Alexander, S. a Rutherford, J. (2014). **The Deep Green Alternative: Debating Strategies of Transition**. Simplicity Institute.  
<http://simplicityinstitute.org/wp-content/uploads/2011/04/The-Deep-Green-Alternative.pdf>

Armstrong, E. (2016). **Research Briefing: The Farming Sector in Wales**. Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru.  
<https://senedd.cymru/ymchwil%20documents/16-053-sector-ffermio-yng-nghymru/16-053-gwe-cymraeg2.pdf>

Asafu-Adjaye, J., Blomqvist, L., Brand, S., Defries, R., Ellis, E., Foreman, C., Keith, D.,

- Lewis, M., Lynas, M., Nordhaus, T., Pielke, R. Jr., Pritzker, R., Roy, J., Sagoff, M.A., Shellenberger, M., Stone, R., a Teague, P. (2015). **An Ecomodernist Manifesto.** [www.ecomodernism.org](http://www.ecomodernism.org). <https://static1.squarespace.com/static/5515d9f9e4b04d5c3198b7bb/t/552d37bbe4b07a7dd69fc/dbb/1429026747046/An+Ecomodernist+Manifesto.pdf>
- Bakker, ES a Svenning, J-C. (2018). **Trophic rewilding: impact on ecosystems under global change** Phil. Trans. R. Soc. B 373. <http://doi.org/10.1098/UKDA-SN-2017.0432>
- Betteley, C. (2018). **Rewilding plan is ‘urban values forced onto a rural Welsh area’.** Cambrian News, 29ain Hydref 2018. <https://www.cambrian-news.co.uk/article.cfm?id=124739&headline=Rewilding%20plan%20is%20E2%80%98urban%20values%20forced%20on%20a%20rural%20Welsh%20area%E2%80%99&sectionIs=&searchyear=2018>
- Pwyllgor y Newid Hinsoddol. (2020). **The path to Net Zero and progress on reducing emissions in Wales.** [https://www.theccc.org.uk/publication/the-path-to-netzero-and-progress-reducing-emissions-in-wales/](https://www.theccc.org.uk/publication/the-path-to-net-zero-and-progress-reducing-emissions-in-wales/)
- Cromsigt, JPGM, te Beest, M, Kerley, GIH, Landman, M., le Roux, E. a Smith, FA (2018). **Trophic rewilding as a climate change mitigation strategy?** Phil. Trans. R. Soc. B 373. <http://doi.org/10.1098/UKDA-SN-2017.0440>
- Fairlie, S. (2013). **Rewilding and Food Security.** The Land, 14, Summer 2013. <https://www.thelandmagazine.org.uk/sites/default/files/Rewilding%20and%20Food%20Security.pdf>
- Undeb Amaethwyr Cymru. (2019). **Sustainable Farming and Our Land: Welsh Government Consultation Response by the Farmers’ Union of Wales.** [https://f uw.org.uk/images/pdf\\_header\\_images/policy\\_pdfs/SFOL\\_Consultation\\_Response\\_FINAL\\_301019.pdf](https://f uw.org.uk/images/pdf_header_images/policy_pdfs/SFOL_Consultation_Response_FINAL_301019.pdf)

- Sefydliad Materion Cymru. (2019). **A plan for Wales’s renewable energy future: Essential actions to re-energise Wales by 2035.** [https://www.iwa.wales/wp-content/media/2019/03/IWA\\_Energy\\_WP6\\_Digital-2.pdf](https://www.iwa.wales/wp-content/media/2019/03/IWA_Energy_WP6_Digital-2.pdf)
- Jackson, T. (2009). **Prosperity Without Growth: Economics for a Finite Planet.** Earthscan.
- Jones, GW, a Jones, T. (2021). **The Agriculture White Paper: What Future for the Post-Brexit Welsh Countryside?** Sefydliad Materion Cymru. <https://www.iwa.wales/agenda/2021/03/the-agriculture-white-paper-what-future-for-the-post-brexit-welsh-countryside/>
- Price, J., Roberts, M. a Bristow, D. (2021). **Achieving a just transition in Wales.** Canolfan Polisiau Cyhoeddus Cymru. <https://www.wcpp.org.uk/publication/achieving-a-just-transition-in-wales/>
- Raworth, K. (2012) **‘A Safe and Just Space for Humanity: Can We Live Within the Doughnut?’**, Oxfam GB. <http://policy-practice.oxfam.org.uk/publications/a-safe-and-just-space-for-humanity-can-welive-within-the-doughnut-210490>
- Sen, S. (2020). **Only Connect: Joining Up Wales’s Clean Energy Opportunities.** Sefydliad Materion Cymru. <https://www.iwa.wales/agenda/2020/07/only-connect-joining-up-wales-clean-energy-opportunities/>
- Smaje, C. (2015). **Ecomodernism: a response to my critics.** Small Farm Future. <https://smalfarmfuture.org.uk/?p=854>
- Swaffield, L. ac Egan, D. (2020). **The Welsh Doughnut 2020: A framework for environmental sustainability and social justice.** OXFAM Cymru. <https://oxfamilibrary.openrepository.com/bitstream/handle/10546/620979/rr-welsh-doughnut-2020-sustainability-social-justice-010320-en.pdf;jsessionid=089F1D1237F24915Equence>
- Thomas, N. (2021). **Wales advances its plans for small nuclear plants.** Financial Times,

25ain Awst 2021.

<https://www.ft.com/content/70c7d7d7-6658-4d6a-9370-64087bf314e7>

Llywodraeth Cymru. (2019a). **Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel.**

[https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/low-carbon-delivery-plan\\_1.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/low-carbon-delivery-plan_1.pdf)

Llywodraeth Cymru. (2019b). **Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n ymwybodol o'r hinsawdd: Cynllun ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd i Gymru.** <https://llyw.cymru/ffyniant-holl-hinsawdd-ymwybodol-cymru>

Llywodraeth Cymru. (2021a). **Net Zero Wales Carbon Budget 2 (2021-25).**

<https://llyw.cymru/net-sero-wales-carbon-budget-2-2021-2025>

Llywodraeth Cymru (2021b). **Cytundeb Cydweithio: 2021.** <https://llyw.cymru/y-cytundeb-cydweithio-2021>

Llywodraeth Cymru (2021c). **Cynhyrchu Ynni yng Nghymru: 2019.**

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-01/energy-generation-in-wales-2019.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2022). **Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cynigion Amlinellol ar gyfer 2025.** Llywodraeth Cymru.

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2022-07/sustainable-farming-scheme-outline-proposals-for-2025.pdf>

Williams, A. (2019). **Dyfodol ffermio a byd natur yng Nghymru.** Sefydliad Materion Cymru.

<https://www.iwa.wales/agenda/2019/03/the-future-of-farming-and-nature-in-wales/>

## Rhagor o wybodaeth

Mae ein papurau barn cyhoeddodedig ar gael yn <https://www.wcpp.org.uk/project/datgarboneiddio-cymru-ynni-diwydiant-tir/>

## Ynglŷn â Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r Ganolfan, sydd wedi ei harianu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol

a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith Beth Sy'n Gweithio y DU.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Jack Price**

+44 (0)29 2087 5345

jack.price@wcpp.org.uk

### Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd, Sbarc/Spark, Ffordd Maindy, Caerdydd CF24 4HQ



[www.wcpp.org.uk/cy](http://www.wcpp.org.uk/cy)



029 2087 5345



[info@wcpp.org.uk](mailto:info@wcpp.org.uk)



@WcfPP